Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion

10 Hydref 2022

Annwyl Paul

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid wedi cynnal ymchwiliad yn ddiweddar i drefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd hwn yn ymchwiliad byr, â ffocws iddo, i'r paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE. Fodd bynnag, o ystyried cylch gwaith eich Pwyllgor chi, deallwn y gallai fod gennych ddiddordeb yng ngweithrediad ac allbynnau'r ffrydiau cyllido hyn hefyd.

Mae'n bleser gennyf felly eich hysbysu ein bod bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiad, ac mae copi ohono ynghlwm er gwybodaeth i chi. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn gosod sylfeini cadarn i'ch Pwyllgor chi a/neu Bwyllgorau eraill y Senedd adeiladu arnynt mewn ymchwiliadau yn y dyfodol, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r holl Aelodau o'r Senedd drafod y materion arwyddocaol hyn a fydd yn cael effaith barhaol ar Gymru.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.